**CYNGOR SIR FYNWY**
**GORCHYMYN CYDGRYNHOI RHEOLIADAU RHEOLEIDDIO TRAFFIG, TERFYNAU CYFLYMDER A PHARCIO CYNGOR SIR FYNWY 2019**
**(GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 13) 2023**

**DARPARIAETH ARFAETHEDIG A DIWYGIADAU I ORCHMYNION TRAFFIG O FEWN CYMUNEDAU AMRYWIOL YN SIR FYNWY: EFFAITH Y GORCHYMYN**:

- Cyflwyno Terfyn Cyflymder 40mya ar Heol yr Eglwys a Dewstow Road, Cil-y-coed.
- Cyflwyno estyniad Terfyn Cyflymder 30mya ar yr A466, Trefynwy.
- Cyflwyno estyniad Terfyn Cyflymder 30mya ar Llantilio School Road, Llandeilo Bertholau.
- Cyflwyno Terfyn Cyflymder 40mya ar Leechpool Lane a Leechpool Holdings, Porth Sgiwed.
- Cyflwyno Terfyn Cyflymder o 40mya ar yr A4077 Crickhowell Road a Church Road, Gilwern

## DATGANIAD RHESYMAU

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi derbyn ceisiadau a phryderon amrywiol gan randdeiliaid a chynrychiolwyr cymunedol mewn perthynas â'r ardaloedd a enwir uchod i adolygu'r terfynau cyflymder amrywiol presennol.

Mae swyddogion wedi cynnal adolygiad o'r terfynau cyflymder presennol ym mhob lleoliad a restrir uchod yn unol â chanllawiau a rheoliadau cyfredol terfynau cyflymder lleol, a bwriedir i'r cynigion sydd wedi'u hymgorffori yn y Gorchymyn Diwygio arfaethedig Rhif 13 alinio'r terfynau cyflymder ym mhob lleoliad â'r canllawiau cyfredol ar osod terfynau cyflymder statudol priodol.

Mae'r cyfyngiadau cyflymder is yn cael eu cynnig er mwyn cynyddu lefel diogelwch priffyrdd ac annog a chefnogi trigolion a defnyddwyr eraill y priffyrdd i ddefnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy ym mhob cytref.

| **Rhif y Darlun** | **Enwau Ffyrdd Cysylltiedig** | **Manylion** |
|---|---|---|
| **2120** | **Church Road a Dewstow Road, Cil-y-coed** | Yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan y gymuned leol mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar Church Road a Dewstow Road, Cil-y-coed. Bydd y cynnig yn cyfrannu at greu amgylchedd priffyrdd mwy diogel a chroesawgar i bob defnyddiwr priffyrdd a lleihau amlder a difrifoldeb gwrthdrawiadau ffyrdd. |
| **2121** | **A466, Trefynwy** | Yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan y gymuned leol mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig cyflwyno estyniad i'r Parth 30mya ar yr A466 sy'n arwain i Drefynwy fel ei bod yn cwmpasu'r fynedfa i Faes y Sioe, Trefynwy. Bydd y cynnig yn cyfrannu at greu amgylchedd priffyrdd mwy diogel a chroesawgar i bob defnyddiwr priffyrdd a lleihau amlder a difrifoldeb gwrthdrawiadau ffyrdd. |
| **2122** | **Leechpool Lane a Leechpool Holdings, Porth Sgiwed** | Yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan y gymuned leol, mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar Leechpool Lane a Leechpool Holdings, Porth Sgiwed. Bydd y cynnig yn cyfrannu at greu amgylchedd priffyrdd mwy diogel a chroesawgar i bob defnyddiwr priffyrdd a lleihau amlder a difrifoldeb gwrthdrawiadau ffyrdd. |
| **2123** | **Llantilio School Road, Llandeilo Bertholau** | Yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan y gymuned leol, mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig cyflwyno estyniad i'r terfyn cyflymder o 30mya ar Llantilio School Road fel ei fod yn cwmpasu Eglwys Sant Teilo a phreswylfeydd cyfagos eraill. Bydd y cynnig hefyd yn arwain at ostyngiad graddol mewn cyflymder sy'n arwain at y terfyn cyflymder 20mya ledled y gymuned trwy’r Fenni gyfan. Bydd y cynnig yn cyfrannu at |

| | | |
|---|---|---|
| | | greu amgylchedd priffyrdd mwy diogel a chroesawgar i bob defnyddiwr priffyrdd a lleihau amlder a difrifoldeb gwrthdrawiadau ffyrdd. |
| **2124** | **A4077 Crickhowell Road a Church Road, Gilwern** | Yn dilyn sylwadau gan y gymuned leol, mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya ar yr A4077 Crickhowell Road a Church Road, Gilwern, gan ganiatáu gostyngiad graddol mewn cyflymder sy'n arwain at y terfyn cyflymder 20mya a gyflwynwyd yn ddiweddar yng nghymuned Gilwern. Bydd y cynnig yn cyfrannu at greu amgylchedd priffyrdd mwy diogel a chroesawgar i bob defnyddiwr priffyrdd a lleihau amlder a difrifoldeb gwrthdrawiadau ffyrdd. |